# Cynnig i newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn

## Dogfen Ymgynghori



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cynnwys


Cyflwyniad ..... 3
Yr Ysgol sy'n Destun y Cynnig ..... 3
Cefndir ..... 5
Y Cynnig – Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn ..... 6
Ffactorau penodol lle mae cynigion yn ymwneud ag ychwanegu dosbarthiadau meithrin ..... 9
Yr ysgol/ysgolion y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arni/arnynt ..... 13
Ansawdd a safonau mewn addysg ..... 15
Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion ..... 18
Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill ..... 20
Ffactorau cyffredinol eraill ..... 21
Trefniadau Derbyn ..... 21
Y Broses Ymgynghori ..... 22
Asesiad Effaith Integredig ..... 27
Atodiad A - Ffurflen Ymateb ..... 28
Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ..... 32

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn egluro’r cynnig ar y cyd rhwng Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn a Chyngor Sir Caerfyrddin i newid ystod oedran Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn o 4-11 i 3-11 o fis Medi 2026 ymlaen.

Mae'r ddogfen yn cynnig cyfle i rieni, gofalwyr, staff ysgol ac unrhyw un arall sydd â diddordeb gyflwyno unrhyw sylwadau neu opsiynau eraill y maent yn dymuno iddynt gael eu hystyried. Ar ôl ymgynghori ynghylch y newid arfaethedig, bydd y Cyngor yn ystyried a ddylid gweithredu'r cynigion hyn.

Bydd y Cyfnod Ymgynghori ar gyfer y cynnig yn cael ei gynnal rhwng 4/9/2025 a 16/10/2025. Ni fydd modd ystyried unrhyw ymatebion sy’n dod i law ar ôl y dyddiad cau.

Bydd y broses ymgynghori yn dilyn y canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru fel y nodwyd yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018).

## Yr Ysgol sy'n Destun y Cynnig

| | | Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn |
|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | | Orchard Park<br>Talacharn<br>Sir Gaerfyrddin<br>SA33 4TE |
| **Ystod Oedran** | | 4-11 |
| **Categori'r Ysgol** (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir) | | Gwirfoddol a Reolir |
| **Categori Iaith** | | 1 (Cyfrwng Saesneg) |
| **Nifer y disgyblion ar y gofrestr (CYBLD 2025)** | **Oedran Meithrin** | 3 |
| | **Derbyn – B.6** | 50 |
| | **Cyfanswm** | 53 |
| **Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol (CYBLD)** | **Ionawr 2024** | 68 |
| | **Ionawr 2023** | 71 |
| | **Chwefror 2022** | 80 |
| | **Ebrill 2021** | 85 |
| **Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion** | **Ionawr 2026** | 44 |
| | **Ionawr 2027** | 45 |
| | **Ionawr 2028** | 43 |
| | **Ionawr 2029** | 40 |
| | **Ionawr 2030** | 42 |
| **Capasiti Meithrin 24/25** | | 14 |
| **Capasiti D-B.6 24/25** | | 104 |
| **Cyfanswm Capasiti 24/25** | | 118 |

| | |
|---|---|
| **Capasiti Meithrin 25/26** | 15 |
| **Capasiti D-B.6 25/26** | 111 |
| **Cyfanswm Capasiti 25/26** | 126 |
| **Cost fesul disgybl (2024/25)** | £5,048 |
| **Cyllideb Ysgol (2024-25)** | £343,264 |
| **Canlyniad Arolygiad Estyn (2022)** | Adroddiad Arolygiad Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn 2022<br>Nid yw'r ysgol mewn categori gweithgarwch dilynol.<br>www.estyn.gov.wales/reports |
| **Categori Cyflwr Adeilad (2024)** | B |

(CYBLD) - Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

| **Graddau Categori Cyflwr Adeilad** | |
|---|---|
| Gradd A | Fel newydd |
| Gradd B | Yn weithredol ddiogel, ac yn dangos mân ddirywiad yn unig |
| Gradd C | Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig. |
| Gradd D | Anweithredol neu risg ddifrifol o fethiant mawr |

## Cefndir

Mae'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn o 4-11 i 3-11 wedi'i baratoi mewn ymateb i benderfyniad Cabinet y Cyngor Sir i gael gwared ar Bolisi Plant sy'n Codi'n 4 oed Sir Gaerfyrddin, lle roedd plant yn gymwys yn hanesyddol i fynd i addysg gynradd amser llawn ar ddechrau'r tymor ysgol pan oeddent yn troi'n bedair oed.

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori â'r cyhoedd rhwng 19 Ionawr 2024 a 1 Mawrth 2024, penderfynodd Cabinet y Cyngor Sir ar 25 Mawrth 2024 gael gwared ar Bolisi Plant sy'n Codi'n 4 oed Sir Gaerfyrddin, sy'n golygu, o 1 Medi 2025, y bydd plant yn gymwys ar gyfer ysgol amser llawn ar ddechrau'r tymor **ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed**. O'r dyddiad hwn, ni fydd unrhyw blant mewn darpariaeth amser llawn sy'n dair oed.

Mae plant sydd wedi troi'n dair oed yn gymwys i gael o leiaf 10 awr yr wythnos o ddarpariaeth addysg gymeradwy anstatudol ar sail sesiynol ran-amser, naill ai yn un o'r 42 o ysgolion cynradd yn y sir sydd wedi'u dynodi'n ysgolion 3-11 a lle mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei chynnal gan yr Awdurdod Lleol, neu o leiaf 10 awr o addysg mewn lleoliadau cymeradwy nas cynhelir, fel meithrinfeydd dydd neu Gylchoedd Meithrin. Mae rhieni sy'n gweithio yn gallu cael mynediad at hyd at 30 awr o addysg a gofal plant wedi'u hariannu drwy Gynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru ar gyfer plant 3-4 oed cymwys.

Un o effeithiau cael gwared ar y Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed yw y bydd plant yn aros mewn lleoliadau darpariaeth feithrin a gofal plant am dymor ychwanegol bellach. Yn y tymor byr, gallai hyn greu galw ychwanegol am ddarparu addysg anstatudol ar gyfer mwy o blant tair oed, a galw cynyddol am ofal cofleidiol o bosib. Yn ddelfrydol, bydd y galw hwn yn cael ei fodloni gan y sector nas cynhelir lle bydd darparwyr yn gallu ehangu'r ddarpariaeth i dderbyn mwy o blant ar gyfer naill ai o leiaf 10 awr o addysg neu ofal cofleidiol, neu'r ddau.

Mewn cymunedau lle nad yw hyn yn digwydd a lle mae bylchau yn y ddarpariaeth o'r elfen addysg, mae’r Cyngor yn cynnig newidiadau i rai o'i ysgolion 4-11 i fod yn ysgolion 3-11. Byddai hyn yn galluogi’r ysgolion hyn i ddarparu'r elfen o 10 awr o leiaf o addysg anstatudol a bod yn fwy cyson o ran darpariaeth ledled Sir Gaerfyrddin. Mae ysgol 3-11 yn derbyn cyllid dirprwyedig gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer darparu addysg ran-amser i blant 3 oed.

Felly, nod y cynnig hwn yw mynd i'r afael â'r bwlch o ran darparu o leiaf 10 awr o addysg anstatudol i blant 3 oed yn ardal Talacharn drwy gynnig newid ystod oedran Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn o 4-11 i 3-11.

## Y Cynnig – Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn

Y cynnig yw newid ystod oedran Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn o fod yn ysgol 4-11 i fod yn ysgol 3-11 o fis Medi, 2026.

### Y Trefniadau Presennol – *Status Quo*

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg 4-11 yn Nhalacharn. Mae 53 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol (CYBLD 2025) ar hyn o bryd. Capasiti'r ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2025-26 yw 118.

Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn yn ysgol 4-11 ac felly nid yw'n gallu cynnig darpariaeth addysg anstatudol ran-amser y Blynyddoedd Cynnar i blant 3 oed. Mae hyn yn arwain at fwlch yn y ddarpariaeth addysg yn yr ysgol a'i chymuned rhwng 3 a 4 oed.

Mae addysg y Blynyddoedd Cynnar yn ddarpariaeth anstatudol sydd ar gael i blant 3 oed. Mae hawl gan bob plentyn 3 oed i gael lleoliad wedi'i ariannu am 10 awr yr wythnos mewn sefydliad cofrestredig drwy’r Grŵp Hawliau Bore Oes o'r tymor yn dilyn ei drydydd pen-blwydd.

Mae gwahanol fathau o ddarpariaeth y Blynyddoedd Cynnar ar gael ledled Sir Gaerfyrddin:
- 1 ysgol feithrin
- Dosbarthiadau Meithrin/Blynyddoedd Cynnar mewn ysgolion cynradd 3-11
- Darpariaeth gan y sector nas cynhelir sy’n bartneriaid yn y Grŵp Hawliau Bore Oes, fel Blynyddoedd Cynnar Cymru, Mudiad Meithrin a darparwyr preifat eraill

Mae darpariaeth y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn yn cael ei chynnig ar hyn o bryd mewn ysgolion cynradd cyfagos a gynhelir yn Sir Gaerfyrddin, sef yn Ysgol Gynradd Llanmilo, sy'n darparu gofal cofleidiol yn unig, heb unrhyw elfen addysg, drwy ddarparwr nas cynhelir ac Ysgol Griffith Jones, Sanclêr sy'n ysgol 3-11 sy'n darparu addysg. Mae Ysgol Gynradd Llanmilo 3 milltir i ffwrdd ac Ysgol Griffith Jones 5 milltir i ffwrdd o Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn.

Yn ogystal, mae Ysgol Gynradd Gymunedol Tafarnspite yn ysgol 3-11 sy'n darparu addysg i blant 3 oed. Mae 9.7 milltir o Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn ac yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Penfro.

#### Cryfderau'r *Status Quo*
- Dim newid i staff, disgyblion a'r gymuned ehangach
- Dim effaith ar ddarparwyr nas cynhelir presennol yn y gymuned ac ysgolion cyfagos.

#### Gwendidau'r *Status Quo*

- Nid yw'r ysgol yn cynnig darpariaeth feithrin ar y safle ac mae'n rhaid i blant deithio i gael mynediad at ddarpariaeth feithrin mewn ysgolion cyfagos neu mewn sir arall.
- Nid yw trefniadau presennol Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn yn cynnig yr un ddarpariaeth o ran addysg y blynyddoedd cynnar ag ysgolion cynradd cyfagos a gynhelir yn Sir Gaerfyrddin neu ysgol gynradd gyfagos a gynhelir gan Awdurdod Lleol. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar allu'r ysgol i gadw disgyblion y dalgylch ac felly yn peryglu ei chynaliadwyedd yn y dyfodol, yn enwedig o ystyried bod nifer y disgyblion wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf a rhagwelir y byddant yn gostwng ymhellach yn y dyfodol agos. Byddai cynnig darpariaeth feithrin yn annog plant sy'n ei defnyddio i aros yn yr ysgol unwaith y byddant yn gallu symud ymlaen i ddosbarthiadau derbyn amser llawn.
- Mae plant yn nalgylch yr ysgol yn colli cyfleoedd addysg lle nad yw rhieni yn dewis ysgolion eraill. Gall hyn effeithio'n anghymesur ar blant o gefndiroedd dan anfantais economaidd.
- Mae gan yr ysgol le pwrpasol a hunangynhwysol ar gyfer y blynyddoedd cynnar sy'n cynnwys ystafell gotiau, cegin, ystafell dawel, ardal celf a chrefft, toiledau, ac ardal chwarae awyr agored â digon o gyfarpar. Nid yw'r rhan hon o'r ysgol yn cael ei defnyddio'n ddigonol ar hyn o bryd.

**Manteision ac Anfanteision y cynnig:**

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| Mynd i'r afael â'r bwlch yn addysg y blynyddoedd cynnar i blant 3 oed yn ardal Talacharn. Sicrhau cysondeb o ran mynediad at addysg y blynyddoedd cynnar. | Posibilrwydd o leihau'r galw am leoedd mewn ysgolion 3-11 cyfagos sy'n darparu addysg eisoes ac unrhyw feithrinfeydd preifat a gwarchodwyr plant sy'n cynnig darpariaeth drwy'r dydd ar hyn o bryd. |
| Darpariaeth feithrin ar gael ar safle'r ysgol. | Risg ariannol bosibl i'r ysgol os yw'r galw am leoedd meithrin yn amrywio. Bydd hyn bob amser yn dibynnu ar ba ysgol y mae rhieni yn dewis cofrestru eu plant ynddi. |
| Pontio graddol a chefnogol ar gyfer plant 3 oed sy'n dechrau yn yr ysgol, gan ddechrau gyda hanner diwrnodau a symud ymlaen i ddiwrnodau ysgol llawn. | Cynyddu llwyth gwaith staff wrth ddarparu addysg y blynyddoedd cynnar yn y dosbarth M2 a derbyn presennol. |
| Gallai ddenu mwy o ddisgyblion i fynychu'r ysgol. Bydd hyn yn cynyddu cynaliadwyedd a hyfywedd yr ysgol yn y dyfodol. | |
| Posibilrwydd o ddiogelu swyddi presennol a chyflogaeth bellach yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir | |

| | |
|---|---|
| Talacharn os yw'r ddarpariaeth feithrin yn llwyddiannus ac yn ehangu. | |
| Cael gwared ar leoedd gwag yn yr ysgol. Ar hyn o bryd mae hyn yn 55% o'r capasiti. | |
| Nodi plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gynnar a rhoi cefnogaeth iddynt. Potensial ar gyfer ymyriadau cymdeithasol a chyfathrebu cynnar, gan wella parodrwydd cyffredinol ar gyfer bywyd ysgol. | |
| Cefnogi sgiliau Cymraeg plant yn gynnar a'u datblygu drwy ddarpariaeth ddwyieithog. | |

**Manteision cael mynediad at addysg y Blynyddoedd Cynnar ar safle ysgol**

- Datblygu sgiliau sylfaenol yn gynnar
- Nodi anghenion dysgu yn gynnar
- Ymgysylltu â rhieni yn gynnar
- Helpu disgyblion i bontio i ddysgu cynradd a dysgu gydol oes
- Cefnogaeth i ddatblygu sgiliau Cymraeg yn gynnar

**Rheoli Risg:**

| Risg | | Rheoli Risg |
|---|---|---|
| 1. | Methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r cynnig. | Dilyn y canllawiau a bennwyd yng Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2018. |
| 2. | Yr effaith ar yr economi leol yn sgil colli niferoedd mewn darparwyr meithrinfeydd preifat. | Ymgynghori'n agored â darparwyr preifat ynghylch y cynnig i ddeall yr effaith bosibl. |
| 3. | Nid yw'r dosbarth meithrin yn yr ysgol yn derbyn digon o geisiadau. | Nid oes modd rhagweld nifer y ceisiadau. Bydd hyn yn cael ei fonitro gan y tîm derbyn. |

**Opsiynau Eraill a ystyriwyd:**

| Opsiwn Arall | Disgrifiad | Rheswm dros ddiystyru'r opsiwn |
|---|---|---|
| **Opsiwn 1** | ***Status Quo* – dim newid i Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn.** | Nid yw'n mynd i'r afael â'r bwlch yn narpariaeth addysg anstatudol y blynyddoedd cynnar i blant 3 oed yn nalgylch Talacharn ac ni fyddai'n mynd i'r afael â'r mater o ran gostyngiad yn nifer y disgyblion yn yr ysgol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn 2** | **Cynnig Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar mewn Ysgolion Cyfagos** | Rhaid i ddisgyblion deithio allan o'r dalgylch i gael mynediad at ddarpariaeth addysg anstatudol y blynyddoedd cynnar i blant 3 oed mewn ysgolion eraill. Mae'n bosibl na fydd disgyblion yn cael eu derbyn os oes pwysau ar leoedd yn yr ysgolion eraill. Yn ogystal, gan nad yw plant o dan oedran addysg orfodol yn gymwys i gael cludiant am ddim, gallai roi plant a theuluoedd dan anfantais, yn enwedig y rhai ar incwm is. |

## Ffactorau penodol lle mae cynigion yn ymwneud ag ychwanegu dosbarthiadau meithrin

- ***Safon yr addysg feithrin a digonolrwydd yr adeiladau a'r cyfleusterau a gynigir yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored, a hyfywedd unrhyw ysgol sydd am ychwanegu lleoedd meithrin.***


Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo ac yn cael ei weithredu fel y cynigir ym mis Medi 2026, capasiti'r ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 yw 12 ar gyfer Oedran Meithrin a 111 ar gyfer Derbyn ac uwch, gan roi cyfanswm capasiti o 123. Ar hyn o bryd dim ond 53 ar y gofrestr, ac felly mae digon o leoedd o ran ystafelloedd dosbarth a digon o staff i integreiddio grŵp meithrin yn ddi-dor o fewn y grwpiau presennol ar gyfer Meithrin 2 a Derbyn.

Fodd bynnag, pe bai'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn o 4-11 i 3-11 yn mynd rhagddo, byddai hyn yn arwain at gapasiti ysgol o 150, capasiti meithrin o 20, cyfanswm capasiti o 125 a nifer derbyn o 15. Rhagwelir y bydd gan yr ysgol 48 o ddisgyblion ar y gofrestr (gan gynnwys disgyblion meithrin) ym mis Ionawr 2027, sy'n dangos y bydd digon o le a chyfleusterau i ychwanegu lleoedd meithrin o fis Medi 2026 ymlaen.

Mae gan Ysgol Talacharn le pwrpasol a hunangynhwysol ar gyfer y blynyddoedd cynnar sy'n cynnwys ystafell gotiau, cegin, ystafell dawel, ardal celf a chrefft, toiledau, ac ardal chwarae awyr agored â digon o gyfarpar. Mae digon o le awyr agored i hwyluso dysgu awyr agored diogel.

O ystyried bod yr ysgol mewn trefniant ffederasiwn llac ar hyn o bryd ac yn rhannu pennaeth gydag Ysgol Gynradd Llanmilo, ac er bod nifer fawr o leoedd gwag yn yr ysgol ar hyn o bryd, mae'r Cyngor o'r farn bod gan yr ysgol ddyfodol hyfyw a phe bai'r cynnig yn mynd rhagddo yn y pen draw, rhagwelir y byddai disgwyl i ychwanegu'r dosbarth meithrin gael effaith gadarnhaol ar niferoedd disgyblion yn y dyfodol ac ar hyfywedd yr ysgol.

Mae gan Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn ddigon o le o ran ystafelloedd dosbarth i ddarparu ar gyfer disgyblion meithrin yn yr ysgol. Gall Ystafell Ddosbarth y Cyfnod Sylfaen 01/0/043 ar y Cynllun Llawr isod ddarparu ar gyfer y disgyblion meithrin. Mae lle i 20 o ddisgyblion meithrin yn yr ystafell ddosbarth. Mae gan yr ysgol hefyd ddigon o le awyr agored i ddarparu yn benodol ar gyfer disgyblion meithrin yn ogystal â'r rhai o oedran ysgol gorfodol.




- ***A oes angen rhagor o leoedd meithrin yn yr ardal*.**

Nid oes darpariaeth cyn-ysgol breifat yn Nhalacharn, gan arwain at fwlch clir yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar. Roedd Llywodraethwyr yr ysgol eisoes wedi dechrau ystyried yr opsiynau ar gyfer darparu lleoliad cyn-ysgol ac wedi cytuno i ddechrau sesiynau Chwarae ac Aros mewn cydweithrediad â grŵp mamau a phlant bach gwirfoddol yn Nhalacharn. Byddai sefydlu darpariaeth feithrin ffurfiol yn yr ysgol yn adeiladu ar yr ymdrechion hyn ac yn gwella cydlyniant cymunedol drwy ddarparu lleoliad cyfarwydd a hygyrch i deuluoedd o oedran cynharach.

Mae'r ysgol wedi nodi ei bod yn colli nifer o ddarpar ddisgyblion yn gyson o'i dalgylch ei hun i leoliadau eraill megis Ysgol Griffith Jones yn Sanclêr ac Ysgol Tafarnspite yn Sir Benfro sydd ill dwy yn cynnig darpariaeth feithrin i blant o dair oed. Mae hyn yn rhoi Ysgol Talacharn dan anfantais, yn enwedig gan fod teuluoedd lleol yn dewis darpariaethau eraill oherwydd eu bod ar gael yn gynharach. Petai'r cynnig hwn yn mynd rhagddo, rhagwelir y byddai'n helpu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn o ran mynediad, sy'n gallu effeithio'n anghymesur ar deuluoedd incwm is.

- ***Lefel y galw am rai mathau o addysg feithrin e.e. cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth ac iddi natur grefyddol:***

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn o dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru. Mae plant yn cael eu dysgu yn unol â gwerthoedd Cristnogol, sef caredigrwydd, dyfalbarhad, cwrteisi, parch a gonestrwydd.

Fel ysgol cyfrwng Saesneg sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg, mae'r ysgol yn bwriadu sicrhau bod y lleoliad meithrin yn gweithredu'n ddwyieithog. Bydd hyn yn cefnogi disgyblion a'u teuluoedd i symud ymlaen ar hyd y continwwm iaith yn unol â'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r uchelgais i'r ysgol drosglwyddo i T2, ysgol ddwyieithog (Categori Iaith Llywodraeth Cymru). Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r nodau strategol ehangach o hyrwyddo dwyieithrwydd a chefnogi gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

- ***I ba raddau y bydd y cynigion yn integreiddio addysg y blynyddoedd cynnar â gwasanaethau gofal plant neu i ba raddau y maent yn gyson â dull gweithredu integredig.***

Pe bai'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn o 4-11 i 3-11 yn mynd rhagddo, mae’r ysgol yn dymuno datblygu darpariaeth gofal cofleidiol ochr yn ochr â darpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar gan sicrhau dull gweithredu integredig o ran addysg a gofal. Mae hyn yn gyson â nod y Corff Llywodraethu i ddechrau sesiynau Chwarae ac Aros mewn cydweithrediad â grŵp mamau a phlant bach gwirfoddol yn Nhalacharn.

Hefyd, mae'r ysgol mewn trefniant ffederasiwn llac gydag Ysgol Gynradd Llanmilo, sef ysgol gyfagos sy'n cynnal lleoliad meithrin preifat sy'n darparu gofal cofleidiol. Mae cyfleoedd ar gyfer cydweithio pellach rhwng y ddwy ysgol i gyfrannu at ddull mwy integredig.

- ***Effaith y cynigion ar sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr sector preifat a thrydydd sector:***

Nid oes darparwr addysg feithrin preifat na'r trydydd sector yn nalgylch Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn nac yn nalgylchoedd ysgolion cyfagos Ysgol Gynradd Gymunedol Llanmilo ac Ysgol Griffith Jones. Mae Ysgol Griffith Jones, fel ysgol 3-11, yn darparu addysg feithrin tua 5 milltir o Dalacharn ond fel arfer mae'n llawn, neu'n agos at fod yn llawn. Mae Ysgol Tafarnspite hefyd yn ysgol 3-11 ond mae wedi'i lleoli yn Sir Benfro. Byddai Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn yn cynnig addysg feithrin yn y lle cyntaf i'r plant hynny sy'n byw yn nalgylch Talacharn ac felly yn Sir Gaerfyrddin ac a fyddai fel arall wedi gorfod dewis croesi'r ffin sirol o bosib.

Yn unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018), bydd y Ddogfen Ymgynghori hon yn cael ei rhannu â rhanddeiliaid allweddol y gallai'r cynnig effeithio arnynt. Mae hyn yn cynnwys y canlynol, ond nid y canlynol yn unig:

- awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni.

- cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynnig, ym marn y cynigydd, yn debygol o effeithio arnynt.

- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin.

- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo'r rhain yn bodoli.

## Yr ysgol/ysgolion y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arni/arnynt

Yn unol â gofynion y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018), darperir manylion isod am yr ysgolion y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt.

| **Enw'r ysgol** | | **Ysgol Griffith Jones** | **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanmilo** | **Ysgol Gynradd Gymunedol Tafarnspite** |
|---|---|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | | Heol yr Orsaf, Sanclêr<br>Sir Gaerfyrddin,<br>SA33 4BT | Llanmilo,<br>Pentywyn,<br>Sir Gaerfyrddin<br>SA33 4TU. | Tafarn-sbeit,<br>Hendy-gwyn ar Daf,<br>Sir Benfro<br>SA34 0NL |
| **Sir/Awdurdod Lleol** | | Sir Gaerfyrddin | Sir Gaerfyrddin | Sir Benfro |
| **Ystod Oedran** | | 3-11 | 4-11 | 3-11 |
| **Categori'r Ysgol (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir)** | | Cymunedol | Cymunedol | Cymunedol |
| **Categori Iaith** | | 3, 2 (Blynyddoedd Cynnar a CA1 Cyfrwng Cymraeg / CA2 Dwy Ffrwd) | 1 (cyfrwng Saesneg) | 1 (cyfrwng Saesneg) |
| **Nifer y disgyblion ar y gofrestr (CYBLD 2025)** | **Meithrin** | 40 | 5 | 27 |
| | **Derbyn – B.6** | 257 | 54 | 197 |
| | **Cyfanswm** | 297 | 59 | 224 |
| **Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol (gan gynnwys disgyblion meithrin) (CYBLD)** | **Ionawr 2024** | 310 | 58 | 222 |
| | **Ionawr 2023** | 305 | 62 | 229 |
| | **Chwefror 2022** | 320 | 73 | 223 |
| | **Ebrill 2021** | 332 | 74 | 234 |
| **Amcanestyniad au o Nifer y Disgyblion (ac eithrio disgyblion meithrin) (2025)** | **Ionawr 2026** | 251 | 47 | 195 |
| | **Ionawr 2027** | 250 | 43 | 193 |
| | **Ionawr 2028** | 252 | 35 | Ddim ar gael |
| | **Ionawr 2029** | 248 | 35 | Ddim ar gael |
| | **Ionawr 2030** | 252 | 37 | Ddim ar gael |

| **Enw'r ysgol** | **Ysgol Griffith Jones** | **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanmilo** | **Ysgol Gynradd Gymunedol Tafarnspite** |
|---|---|---|---|
| **Capasiti Meithrin 24/25** | 42 | 6 | 29 |
| **Capasiti D-B6 24/25** | 295 | 59 | 203 |
| **Cyfanswm Capasiti 24/25** | 337 | 65 | 232 |
| **Capasiti D-B6 25/26** | 286 | 69 | 203 |
| **Cyfanswm Capasiti 25/26** | 320 | 77 | 232 |
| **Cost fesul disgybl (2024/25)** | £4941 | £4782 | £4063 |
| **Cyllideb Ysgol (2024-25)** | £1,474,824 | £277,380 | £883,712 |
| **Canlyniad Arolygiad Estyn** | Ysgol Griffith Jones Estyn 2020 | Ysgol Gynradd Gymunedol Llanmilo Estyn 2023 | Ysgol Gynradd Gymunedol Tafarnspite Estyn 2025 |
| **Categori Cyflwr Adeilad (2024)** | B | B | B |

## Ansawdd a safonau mewn addysg

Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn gofyn am ddadansoddiad o effaith debygol y cynigion ar ansawdd a safonau addysg yn yr ysgol, gan ystyried meysydd arolygu perthnasol Estyn. Nodir y rhain yn yr adran ganlynol.

Barn y Cyngor Sir yw y byddai Ysgol Talacharn yn darparu addysg i ddisgyblion o 3-11 sydd o ansawdd cyfatebol o leiaf i'r ddarpariaeth 4-11 a gynigir ar hyn o bryd. Felly ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig hwn, pe bai'n mynd rhagddo, yn cael effaith negyddol ar safonau a chynnydd yn gyffredinol.

**Blaenoriaethau cyfredol yr ysgol / argymhellion Estyn:**

Cafodd Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Hydref 2022 ac nid yw mewn categori gweithgarwch dilynol ar hyn o bryd.

Argymhellion Estyn:

R1 Sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau siarad Cymraeg.

R2 Ymgorffori'r ddarpariaeth a addaswyd yn ddiweddar i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ymarfer yr ysgol.

R3 Rhannu'r arfer effeithiol sydd ar waith wrth gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ar draws yr ysgol.

**Effaith debygol y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn o 4-11 i 3-11 ar:**

**Dysgu - safonau a chynnydd yn gyffredinol:**

- Mae'r adroddiad arolygiad yn nodi bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu amrywiaeth o fedrau flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn dda yn eu targedau unigol.
- Mae medrau llafaredd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn frwdfrydig pan ofynnir iddynt am eu gwaith ac maent yn hapus i ddisgrifio beth maent yn ei wneud a beth maent yn ei feddwl am eu gwaith.
- Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da o ran ei ddatblygiad mathemategol. Mae bron pob disgybl iau yn cyfrif i 20 ac mae ganddo wybodaeth dda am odrifau ac eilrifau hyd at 10. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau annibynnol sy'n cefnogi datblygiad eu medrau rhif ac mae ganddynt eirfa fathemategol gadarn.
- Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, mae’n annhebygol o gael effaith negyddol gan fod dysgu a chynnydd yn yr ysgol yn gryf.

**Llesiant ac agweddau at ddysgu:**

- Mae'r adroddiad arolygiad yn nodi mai un o nodweddion cryf yr ysgol yw'r berthynas waith gadarnhaol, ofalgar sy'n bodoli rhwng oedolion a disgyblion. Mae bron pob disgybl yn datblygu lefelau uchel o ymddiriedaeth a gwerthfawrogiad tuag at athrawon a staff cymorth. Mae cefnogaeth disgyblion i'w gilydd yn aeddfed ac yn feddylgar.
- Mae bron pob disgybl yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn ymddwyn yn eithriadol o dda yn yr ystafelloedd dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Maent yn gwrtais ac yn groesawgar iawn, ac yn trin ei gilydd, staff ac ymwelwyr gyda pharch a chwrteisi.
- Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, mae'n annhebygol o gael effaith negyddol gan fod gan yr ysgol ddiwylliant cynhwysol cryf effeithiol, lle mae disgyblion yn gofalu'n dda am eu cyfoedion.

**Profiadau dysgu ac addysgu:**

- Nododd arolygwyr Estyn bod athrawon yn darparu amrywiaeth o brofiadau dysgu diddorol sy'n hyrwyddo creadigrwydd disgyblion yn dda drwy ddrama, celf a cherddoriaeth. Mae'r cwricwlwm eang a chytbwys yn galluogi disgyblion i gaffael y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol mewn llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i sicrhau parhad a dilyniant yn eu dysgu.
- Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u lles eu hunain ac eraill yn effeithiol. Mae athrawon yn integreiddio agweddau ar amrywiaeth yn fedrus i'w gwaith cynllunio.
- Mae perthynas waith gefnogol rhwng staff a disgyblion ar draws yr ysgol. Mae staff hefyd yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddiwallu anghenion pob disgybl drwy rannu syniadau ac asesu eu cynnydd. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion ac maent yn defnyddio sgiliau holi effeithiol ac amrywiol i sicrhau bod dysgu fel arfer yn mynd rhagddo ar gyflymder da.
- Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, mae'n annhebygol y bydd yn cael effaith negyddol, gan fod cwricwlwm eang a chytbwys i sicrhau parhad a chynnydd i bawb.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:**

- Mae'r adroddiad arolygiad yn nodi bod pob aelod o staff yn gweithio'n bwrpasol gyda'i gilydd i greu cymuned ofalgar ac amgylchedd dysgu diogel i ddisgyblion ac oedolion. Mae'r ysgol yn sicrhau bod iechyd a lles pob disgybl yn flaenoriaeth gyson.
- Mae'r holl staff yn cefnogi disgyblion i ddatblygu ymwybyddiaeth gref o werthoedd yr ysgol ac, o ganlyniad, mae bron pob disgybl wedi datblygu parch, dealltwriaeth a goddefgarwch tuag at eraill. Mae oedolion yn sicrhau

bod disgyblion yn ystyried gwerthoedd fel gonestrwydd, cynaliadwyedd a pharch yn rheolaidd drwy gwricwlwm amrywiol.

- Mae'r ysgol wedi sicrhau bod ganddi weithdrefnau cadarn i nodi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion a monitro effaith ymyriadau rheolaidd yn drylwyr. Mae disgyblion ag ADY yn cael eu nodi a'u cefnogi'n gyflym ac mae darpariaeth wedi'i theilwra yn cael ei rhoi i ddiwallu eu hanghenion unigol yn yr ystafell ddosbarth ac mewn grwpiau cymorth. Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o gymorth buddiol i helpu disgyblion yn emosiynol ac yn eu dysgu.
- Mae'n annhebygol y bydd y cynnig uchod, os bydd yn mynd rhagddo, yn cael effaith negyddol, gan fod cymuned ofalgar a pholisïau a gweithdrefnau ysgol cadarn ar waith sy'n effeithiol wrth gefnogi lles pob dysgwr.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

- Mae'r adroddiad arolygiad yn nodi bod gan arweinwyr weledigaeth glir a chynlluniau, polisïau ac amcanion strategol priodol ar gyfer yr ysgol. Mae'r rhain yn sicrhau bod staff yn darparu gweithgareddau sy'n diwallu anghenion pob disgybl, fel eu bod yn cyflawni o leiaf yn unol â'r disgwyliadau ar gyfer eu cam datblygiad, beth bynnag fo'u cefndir a'u gallu. Mae ffocws clir hefyd ar gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a gwella lles staff a disgyblion.
- Mae'r prosesau gwella, ynghyd â'r gweithdrefnau olrhain cadarn, yn rhoi ffocws clir i arweinwyr nodi effaith y ddarpariaeth ar ddysgu a lles disgyblion, beth bynnag fo'u cefndiroedd a'u galluoedd.
- Mae arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda. Mae'r rhain yn cynnwys systemau ar gyfer cadw disgyblion yn ddiogel, lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, paratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru, a mireinio'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY.
- Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, mae'n debygol o arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion a bydd hynny'n cael effaith gadarnhaol ar y defnydd effeithlon o adnoddau i gyfrannu at ddyfodol cynaliadwy.

**Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag ADY a dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd;**

Bydd darparu addysg anstatudol ran-amser y Blynyddoedd Cynnar i blant 3 oed yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn o fudd i grwpiau agored i niwed, gan gynnwys dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd gan ei bod yn galluogi arsylwi ac asesu dysgwyr yn gynnar ac yn cefnogi'r gwaith o nodi anghenion yn gynnar ac ymyriadau amserol.

Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, mae'n debygol o wella deilliannau dysgwyr wrth i ddysgwyr gael eu hintegreiddio i amgylchedd dysgu priodol o oedran cynharach.

**Gallu’r ysgol i ddarparu’r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen ac ym mhob cyfnod allweddol addysgol**

Nid oes gan yr Awdurdod Lleol unrhyw bryderon ynghylch ansawdd addysgu a dysgu ac mae'n credu bod gan yr ysgol y gallu i ddarparu cwricwlwm pwrpasol i ddiwallu anghenion pob dysgwr, os bydd y cynnig yn mynd rhagddo.

## Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn ei gwneud yn ofynnol i’r Cyngor ystyried y pwyntiau canlynol mewn perthynas â'r angen am leoedd a’r effaith ar hygyrchedd ysgolion:

- ***I ba raddau y byddai’r cynnig yn cefnogi’r targedau yn y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd.***

Nod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022 - 2032 Sir Gaerfyrddin yw hyrwyddo cynnydd yn nifer y bobl o bob oed sy’n medru defnyddio’r Gymraeg gyda’u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

Ar hyn o bryd mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn yn ysgol Categori 1 (cyfrwng Saesneg). Byddai'r cynnig hwn yn darparu addysg ddwyieithog y blynyddoedd cynnar a byddai'n cefnogi dyheadau'r ysgol i symud ar hyd y continwwm iaith yn unol â'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a symud yr ysgol ymlaen o bosib i Gategori T2 (Trosiannol i Ddwy Iaith). Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r nodau strategol ehangach o hyrwyddo dwyieithrwydd a chefnogi gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

- ***Sut y byddai’r cynnig yn ehangu neu’n lleihau’r ddarpariaeth Gymraeg*.**

Mae'r ysgol am symud ar hyd continwwm y Gymraeg a bydd yn sicrhau bod y lleoliad Meithrin yn gweithredu'n ddwyieithog. Mae'r ysgol hefyd yn cydnabod mai un o'i hargymhellion gan Estyn yw gwella sgiliau Cymraeg plant a bydd sefydlu darpariaeth ddwyieithog yn y lleoliad meithrin yn cefnogi'r cynllun datblygu i gyflawni'r argymhelliad hwn. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd yn gwella'r ddarpariaeth Gymraeg mewn cymuned ehangach lle nad yw'r Gymraeg wedi bod yn gryf yn draddodiadol.

Mae Asesiad cychwynnol o’r Iaith Gymraeg wedi'i gynnal ac mae wedi'i atodi i'r ddogfen hon yn Atodiad B. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar adegau allweddol pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

- ***A fydd y cynnig yn gwella mynediad i bobl anabl yn unol â'r gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010***

Mae gan yr ysgol gynllun hygyrchedd. Fodd bynnag, os bydd angen gwneud unrhyw addasiadau i'r ysgol ar gyfer disgybl, bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yn unol â phrosesau sefydledig trefniadaeth ysgolion Cyngor Sir Caerfyrddin.

## Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill

Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried y pwyntiau canlynol mewn perthynas ag adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill:

- ***Pa effaith y bydd y cynnig yn ei chael ar nifer y lleoedd gwag yn yr ardal***

Rhagwelir, pe bai'n mynd rhagddo, y byddai'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn o 4-11 i 3-11 yn cael effaith gadarnhaol ar gael gwared ar leoedd gwag yn yr ysgol. Ar hyn o bryd mae hyn tua 55% o gyfanswm capasiti'r ysgol.

- ***Cost reolaidd y cynnig dros gyfnod o 3 blynedd, man lleiaf, ac a yw'r cyllid rheolaidd angenrheidiol ar gael***

Mae ysgolion 3-11 a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol yn derbyn cyllid fformiwla dirprwyedig ar gyfer darparu addysg ran-amser i blant 3 oed. Mae hyn yn cyfateb i 50% o'r cyllid fesul pen ar gyfer disgyblion cynradd. Yn 2025-26 y ffigur hwn yw £2044 fesul disgybl ar y gofrestr ar adeg y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gynhelir ym mis Ionawr cyn y flwyddyn ariannol ganlynol. Mae hwn yn gyllid ychwanegol ar gyfer ysgol sydd wedi'i dynodi'n ysgol 4-11 ar hyn o bryd ac sy'n dod yn ysgol 3-11.

- ***Y ffynonellau y darperir cyllid cyfalaf ohonynt***

Os caiff ei gymeradwyo, ni ddisgwylir y bydd angen unrhyw gyllid cyfalaf ar gyfer y cynnig.

- ***Sut y caiff unrhyw dderbyniadau cyfalaf neu arbedion costau rheolaidd eu defnyddio***

Nid yw'r cynnig hwn yn cynnwys trosglwyddo na gwaredu unrhyw dir nac adeiladau.

- ***Costau Cludiant Ychwanegol/Trefniadau Teithio Ddysgwyr***

Gan fod y ddarpariaeth o addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol gorfodol, ni fyddai cludiant am ddim ar gael i ddisgyblion. Fodd bynnag, efallai y bydd goblygiadau cost ar gyfer cludiant ychwanegol os yw'r plant hyn yn cyrraedd yr oedran cymhwysedd i gael cludiant ac os ydynt yn byw yn nalgylch yr ysgol a dros y terfyn dwy filltir.

Gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar drefniadau teithio'r rhai sydd ar hyn o bryd yn teithio y tu allan i'w dalgylch i gael mynediad at addysg y blynyddoedd cynnar. Gallai darparu addysg y blynyddoedd cynnar yn nalgylch Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn annog disgyblion i fynychu ysgol eu dalgylch.

- ***Staffio***

Mae digon o staff ar gael yn yr ysgol o blith y nifer sydd yno eisoes i ddiwallu anghenion y plant meithrin. Bydd y ddarpariaeth feithrin yn cael ei hintegreiddio â'r dosbarth M2 / Derbyn presennol. Bydd y costau staffio yn cael eu talu drwy gyllideb refeniw ddirprwyedig yr ysgol a fydd hyn yn cael ei ategu gan gyllid ychwanegol o ran nifer y disgyblion fel y nodir uchod.

## Ffactorau cyffredinol eraill

Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol ystyried y pwyntiau canlynol mewn perthynas â ffactorau cyffredinol eraill:

- ***Effaith y cynnig ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd***

Bydd darparu addysg anstatudol ran-amser y blynyddoedd cynnar i blant 3 oed yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn o fudd i grwpiau agored i niwed, gan gynnwys dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd gan ei bod yn galluogi arsylwi ac asesu dysgwyr yn gynnar ac yn cefnogi'r gwaith o nodi anghenion yn gynnar ac ymyriadau amserol.

- ***Materion o ran cydraddoldeb, gan gynnwys y rhai a nodir yn sgil asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb***

Nid oes unrhyw faterion amlwg o ran cydraddoldeb wedi'u nodi drwy'r Asesiad Effaith Integredig ar yr adeg hon. Nid yw'n tynnu sylw at unrhyw effaith anghymesur ar unrhyw nodweddion gwarchodedig. Bydd yr asesiad yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen.

## Trefniadau Derbyn

Y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn:
Yr Uned Derbyn Disgyblion i Ysgolion,
Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin
Yr Adran Addysg a Phlant,
Adeilad 3,
Heol Spilman,
Caerfyrddin,
SA31 1LE
Rhif Ffôn: 01267 246449
E-bost: derbyniadau@sirgar.gov.uk

**Derbyn i'r Blynyddoedd Cynnar**

Mae Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn ddarpariaeth anstatudol sydd ar gael i blant 3 oed a bydd yn rhaid gwneud cais am le mewn ysgol i'r Awdurdod Derbyn cywir erbyn y dyddiad cau a gyhoeddir.

Mae hawl gan bob plentyn 3 oed i gael lleoliad wedi'i ariannu am o leiaf 10 awr yr wythnos mewn sefydliad cofrestredig trwy'r Grŵp Hawliau Bore Oes o'r tymor yn dilyn ei drydydd pen-blwydd.

Fel rheol, derbynnir plant i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar mewn ysgolion lle mae'r ddarpariaeth honno ar gael yn rhan-amser ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd.

| 3ydd Pen-blwydd y Plentyn | Y Tymor Derbyn |
|---|---|
| 1 Medi - 31 Rhagfyr | Tymor y Gwanwyn |
| 1 Ionawr - 31 Mawrth | Tymor yr Haf |
| 1 Ebrill - 31 Awst | Tymor yr Hydref |

Nid oes gan rieni/gwarcheidwaid hawl i apelio os na chynigir lle i'w plentyn mewn lleoliad Blynyddoedd Cynnar o'u dewis.

Ni fydd gan blentyn y cynigir lle rhan-amser iddo/iddi mewn ysgol, hawl awtomatig i barhau i dderbyn addysg amser llawn. Rhaid cyflwyno cais ffurfiol i'r awdurdod derbyn cywir.

Mae rhagor o wybodaeth am y polisi a'r broses Derbyn i Ysgolion ar gael ar wefan y Cyngor.

Os bydd y cynnig yn hwn yn mynd rhagddo, yn unol â gofynion statudol Llywodraeth Cymru, byddai'r tîm derbyn yn ymgymryd ag ymarfer derbyniadau untro y tu allan i'r trefniadau arferol, er mwyn sicrhau bod rhieni yng nghymuned Talacharn yn cael cyfle i wneud cais am y lleoedd oedran meithrin sy'n dechrau ym mis Medi 2026.

## Y Broses Ymgynghori

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018).

**Â phwy yr ymgynghorir?**

Bydd dolen i'r Ddogfen Ymgynghori yn cael ei darparu i'r rhanddeiliaid canlynol (fel y pennir gan y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018)):

- *Rhieni (a darpar rieni lle bo'n bosibl), gofalwyr a gwarcheidwaid, ac aelodau staff ysgolion y mae'r cynigion yn effeithio arnynt;*

- *yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy’n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i’r ddarpariaeth uwchradd honno;*
- *awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae’r cynigion yn debygol o effeithio arni;*
- *unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys, lle bo’n briodol, awdurdod lleol yn Lloegr) y mae’r cynigion yn debygol o effeithio arno – gan gynnwys, yn achos darpariaeth AAA ddynodedig, unrhyw awdurdod sy’n gosod neu sy’n debygol o osod disgyblion ag AAA ynddi;*
- *Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a’r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae’r cynigion yn debygol o effeithio arni;*
- *unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae’r cynigion yn debygol o effeithio arni;*
- *corff llywodraethu unrhyw ysgol sy’n destun y cynigion;*
- *cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae’r cynnig, ym marn y cynigydd, yn debygol o effeithio arnynt;*
- *Gweinidogion Cymru;*
- *Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol y Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy’n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir neu y bwriedir eu gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy’n destun y cynigion;*
- *Estyn;*
- *undebau’r athrawon ac undebau staff sy’n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy’n destun y cynigion;*
- *y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol;*
- *Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy’n destun y cynigion;*
- *unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy’n destun cynigion;*
- *yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin;*
- *yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo’r rhain yn bodoli;*
- *yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth AAA, unrhyw gyrff iechyd neu gyrff trydydd sector perthnasol â buddiant yn y cynigion;*
- *yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy’n gwasanaethu ardal yr ysgol; ac*
- *yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg.*

**Ymgynghori â Disgyblion**
Bydd disgyblion yn cael copi o Ddogfen Ymgynghori i Blant a Phobl Ifanc.

Hefyd, bydd cyfle i ddisgyblion (y Cyngor Ysgol o leiaf) yr ysgolion sy'n destun y cynigion gymryd rhan yn y broses ymgynghori yn ystod sesiwn a gynhelir gan Ymgynghorydd Cymorth Addysg.

Bydd y wybodaeth a gesglir o'r sesiynau ymgynghori â'r disgyblion yn rhan o'r Adroddiad Ymgynghori a gyflwynir i'r Cabinet i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

***Cam 1. Cyfnod Ymgynghori***

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion yn dechrau ar 4 Medi 2025 ac yn dod i ben ar 16 Hydref 2025.

Gallwch gyflwyno'ch sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig. Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymunwch wrthwynebu, bydd angen i chi wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

**Ystyried eich sylwadau**
Yn ystod y cyfnod ymgynghori gallwch ofyn cwestiynau, mynegi eich barn neu ddarparu opsiynau eraill i'w hystyried erbyn 16/10/2025 fan bellaf drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: AROLWG SNAP
- Anfon neges e-bost i: RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr i'r cyfeiriad canlynol: Y Cynghorydd Jane Tremlett, Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn, Orchard Park, Talacharn, SA33 4TE.
- Neu lenwi copi papur o'r ffurflen ymateb (Atodiad A) a'i dychwelyd at: Y Cynghorydd Jane Tremlett, Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn, Orchard Park, Talacharn, SA33 4TE neu trwy anfon copi sganedig trwy e-bost i: RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

Nodwch mai dim ond drwy un dull cyfathrebu y mae angen i chi gyflwyno'ch ymateb.

Bydd sylwadau a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu cofnodi a'u crynhoi mewn Adroddiad Ymgynghori.

Ar ôl y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr ysgol ac ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi Hysbysiad Statudol.

Bydd y Corff Llywodraethu a'r Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg yng Nghyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried yr Adroddiad Ymgynghori ac yn penderfynu ar y cyd a yw am fynd ymlaen â'r cynnig ai peidio

***Cam 2. Cyfnod Gwrthwynebu o ran yr Hysbysiad Statudol***

Os yw'r Corff Llywodraethu a’r Aelod Cabinet yn penderfynu mynd ymlaen â'r cynnig bydd y Corff Llywodraethu a Chyngor Sir Caerfyrddin yn cyhoeddi dogfen o’r enw Hysbysiad Statudol.

Bydd yr Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr ysgol ac ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i osod wrth gatiau’r ysgol. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r disgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff yr ysgol (gall yr ysgol hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost).

Bydd yr Hysbysiad Statudol yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu neu gefnogi i wneud hynny'n ysgrifenedig cyn pen 28 o ddiwrnodau.

Os bydd gwrthwynebiadau yn dod i law cyhoeddir Adroddiad Gwrthwynebu ar wefan yr ysgol ac ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau papur o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais oddi wrth yr ysgol. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion neu'r sylwadau cefnogol a godwyd ac yn rhoi ymateb y Corff Llywodraethu a Chyngor Sir Caerfyrddin.

Os na fydd unrhyw wrthwynebiadau yn dod i law, mae'r cynnig yn symud yn syth i benderfyniad.

***Cam 3. Penderfynu***

Y Corff Llywodraethu a’r Aelod Cabinet dros Addysg a’r Gymraeg fydd yn penderfynu ar y cynnig. Mae hyn yn golygu y bydd yn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newid arfaethedig yn mynd yn ei flaen. Gall y Corff Llywodraethu a’r Aelod Cabinet benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig â newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan yr ysgol ac ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Bydd yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu am y penderfyniad a chyhoeddi'r Adroddiad Gwrthwynebu cyn pen 7 diwrnod ar ôl y penderfyniad.

**Llinell Amser Bosibl y Broses Statudol**

Dyma linell amser ddangosol ar gyfer y broses statudol:

| Cam | Disgrifiad | Hyd |
|---|---|---|
| 1 | **Ymgynghori**<br>Dosbarthu'r Ddogfen Ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb. | Medi 2025 - Hydref 2025<br><br>O leiaf 42 diwrnod (gan gynnwys o leiaf 20 diwrnod ysgol) |
| 2 | **Adroddiad Ymgynghori**<br>Bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei ystyried gan y Corff Llywodraethu a'r Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg cyn penderfynu a ddylid mynd ati i gyhoeddi hysbysiad statudol ai peidio.<br>NEU fel arall, daw'r cynnig i ben. | Ionawr 2026 neu'n gynharach<br>Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr ysgol ac ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol |
| 3 | **Hysbysiad Statudol**<br>Os gwneir y penderfyniad i fwrw ymlaen yna cyhoeddir hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac fe'i cyhoeddir ar wefan yr ysgol ac ar wefan y Cyngor a'i arddangos ger mynedfa'r ysgol. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i'r rhieni, i'r gwarcheidwaid, ac i'r staff.<br>Bydd yr hysbysiad statudol yn rhoi manylion ynghylch y modd y gallwch gofnodi eich gwrthwynebiadau i'r cynnig. | Chwefror – Mawrth 2026 neu'n gynharach<br><br>O leiaf 28 diwrnod (gan gynnwys o leiaf 15 diwrnod ysgol a heb gynnwys y diwrnod cyhoeddi) |
| 4 | **Adroddiad Gwrthwynebu**<br>Os bydd gwrthwynebiadau yn dod i law cyhoeddir Adroddiad Gwrthwynebu ar wefan yr ysgol ac ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau papur o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion neu'r sylwadau cefnogol a godwyd ac yn rhoi | Mehefin 2026 neu'n gynharach<br><br>Cyn pen 7 diwrnod gan ddechrau ar ddyddiad y penderfyniad. |

| | | |
|---|---|---|
| | ymateb y Corff Llywodraethu a'r Aelod Cabinet.<br><br>Os na fydd unrhyw wrthwynebiadau yn dod i law, mae'r cynnig yn symud yn syth i benderfyniad. | |
| 5 | **Penderfyniad**<br>Y Corff Llywodraethu fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig gyda newidiadau, ac wrth wneud hynny bydd y Corff Llywodraethu a'r Aelod Cabinet yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.<br>Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. | Mehefin 2026<br><br>Bydd penderfyniad yn cael ei wneud cyn pen 16 wythnos ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu |

## Asesiad Effaith Integredig

Mae asesiad effaith integredig wedi'i gynnal i'n helpu i sicrhau ein bod wedi ystyried sut y gallai ein cynigion effeithio ar wahanol grwpiau a gwasanaethau, gan ein galluogi i gryfhau agweddau cadarnhaol a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl.

Mae'r asesiad effaith integredig hwn yn ymgorffori gofynion y Deddfau canlynol mewn un Asesiad Effaith:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Deddf Cydraddoldeb 2010
- Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol 2021
- Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

## Atodiad A - Ffurflen Ymateb

Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn a Chyngor Sir Caerfyrddin yn ymgynghori ynghylch y cynnig i

- newid ystod oedran Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn o fod yn ysgol 4-11 i fod yn ysgol 3-11 o fis Medi, 2026.

Mae'r ffurflen ymateb ganlynol yn caniatáu i randdeiliaid wneud sylwadau ar y cynnig a'r opsiynau eraill, ac awgrymu unrhyw opsiynau eraill.

Gall ymgyngoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig.

Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymuna ymgyngoreion wrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

---

1. Ydych chi'n ymateb fel:

☐ Rhiant/gofalwr neu warcheidwad

☐ Darpar riant/gofalwr neu warcheidwad

☐ Llywodraethwr

☐ Staff

☐ Aelod o'r gymuned

☐ Cyngor Cymuned

☐ Arall: Nodwch ______________________________

2. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Yn rhannol

3. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn yr hoffech i ni eu hystyried?

4. Oes unrhyw opsiynau eraill y dylai'r Corff Llywodraethu a’r Cyngor Sir fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn, yn eich barn chi?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os oes, esboniwch yr opsiwn arall/opsiynau eraill:

5. Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried effeithiau unrhyw benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

a. Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol neu niweidiol fyddai'r cynnig hwn yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

b. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel y byddai'n cael effaith gadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

c. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel na fyddai'n cael effaith niweidiol neu'n cael effaith lai niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

6. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi a fydd yn crynhoi'r materion a nodwyd gan yr ymgyngoreion ac ymateb y Corff Llywodraethu i'r materion hynny.

Hoffech chi gael gwybod am gyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori?

☐ Hoffwn ☐ Na hoffwn

Os hoffech chi gael gwybod, rhowch gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post a dewis iaith (Cymraeg/Saesneg):

Diolch am lenwi'r ffurflen ymateb.

Dylid anfon ffurflenni ymateb wedi'u llenwi i'r cyfeiriad canlynol:

Y Cynghorydd Jane Tremlett, Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn, Orchard Park, Talacharn, SA33 4TE.

neu trwy anfon copi sganedig trwy e-bost i: RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

Fel arall, gallwch lenwi'r ffurflen hon ar-lein AROLWG SNAP

**Dylech chi ddychwelyd eich ymateb erbyn 16/10/2025**

## Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

**Cynnig a Chefndir**
Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn a Chyngor Sir Caerfyrddin yn cynnig newid ystod oedran Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn o 4-11 i 3-11 o fis Medi, 2026 ac mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg yn ategu cynnig y Cyngor.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ledled Cymru a enwir yn y ddeddf weithio tuag at gyflawni saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

**Cymraeg 2050** yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a'i gweledigaeth yw bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru. Nodir uchelgais Llywodraeth Cymru hefyd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a nifer y bobl sy'n siarad yr iaith, yn ogystal â'r ymrwymiad i weithio tuag at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac i barhau i annog mwy o bobl i ddefnyddio a siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd.
Cymraeg 2050 yw'r prif bolisi sy'n llywio'r newidiadau i'r broses statudol o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ôl strategaeth Cymraeg 2050, addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw'r prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu meithrin eu sgiliau Cymraeg, ac o greu siaradwyr newydd. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd y sector blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad cynnar i addysg drochi, ac fel ffordd o gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

**Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2022-2032) a Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg (2023-28)**

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 a Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg Cyngor Sir Caerfyrddin yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol ac maent yn sylfaen i gyfraniad y Cyngor at gyrraedd y targed a nodir yn strategaeth Llywodraeth Cymru.  Bydd y cynnig hwn yn sicrhau bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg drwy ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac yn hyrwyddo cynnydd yn nifer y bobl o bob oed sy’n medru defnyddio’r Gymraeg gyda’u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 Cyngor Sir Caerfyrddin yn glir yn ei nod a’i egwyddor o ddatblygu gallu ein disgyblion i ddefnyddio’r Gymraeg a’r Saesneg yn rhugl ac yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Bydd hyn yn eu

galluogi i ddod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni, gan feithrin balchder yn ieithoedd, treftadaeth a diwylliant Sir Gaerfyrddin a Chymru.

Bydd y cynnig hwn yn cyfrannu at wireddu'r amcanion strategol yn Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg (2023-28) Sir Gaerfyrddin sy'n anelu at '*wneud y Gymraeg yn brif iaith y Sir ac adfer y Gymraeg yn iaith a siaredir ac a ddefnyddir gan fwyafrif ein trigolion yn gyson, ac ym mhob agwedd ar fywyd*'.

**Cyfeiriad Gwasanaethau Addysg yn Sir Gaerfyrddin i'r dyfodol 2022-2032**

Mae gan Addysg Sir Gâr – Cyfeiriad Gwasanaethau Addysg Sir Gaerfyrddin i'r dyfodol 2022-2032 flaenoriaethau clir sy'n canolbwyntio ar bedair thema allweddol, sy'n gysylltiedig â'n Cenhadaeth Genedlaethol, pedwar diben Cwricwlwm i Gymru. Mae Diben 8 yn nodi y bydd Cyngor Sir Caerfyrddin *"yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn ymfalchïo yn nhreftadaeth a diwylliant unigryw Sir Gaerfyrddin".*

**Cwricwlwm i Gymru**

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o Gwricwlwm i Gymru gyda'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n rhan o'r system addysg statudol a sicrhau bod pob dysgwr, yn y dyfodol, yn gallu defnyddio'r Gymraeg ar ôl iddo adael yr ysgol.  Mae'n pwysleisio'r ffaith y bydd y Gymraeg yn parhau i fod yn orfodol hyd at 16 oed.

**Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol?**

Bydd y cynnig yn cael effaith ar ddisgyblion 3 oed a'u teuluoedd yn ardal Talacharn.

Bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc drwy gynnig cyfleoedd cynnar i ddatblygu sgiliau Cymraeg drwy ddarpariaeth ddwyieithog o 3 oed yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn. Bydd hyn, yn ei dro, o oedran ifanc, yn cynnig sgiliau Cymraeg i blant a phobl ifanc y gallant eu defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd ac yn enwedig pan fyddant yn gadael yr ysgol ac yn dechrau gwaith.

Bydd y cynnig hwn yn galluogi Cyngor Sir Caerfyrddin i gynyddu'r ddarpariaeth a gynigir yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc yn ardal Talacharn, waeth beth fo'u cefndir neu iaith eu teulu, gan

sicrhau bod mwy a mwy o blant a phobl ifanc yn datblygu sgiliau Cymraeg y gellir eu defnyddio mewn bywyd bob dydd. Yn draddodiadol, nid yw cymuned Talacharn wedi bod yn gymuned gref o ran siarad Cymraeg a bydd y cynnig yn rhoi cyfle i blant o 3 oed ddatblygu sgiliau Cymraeg sylfaenol.

Rydym yn disgwyl i unrhyw effaith fod yn gadarnhaol, am y rhesymau canlynol:

- Gall plant a phobl ifanc fanteisio ar addysg ddwyieithog o 3 oed
- Bydd nodau'r cynnig hwn yn helpu Cyngor Sir Caerfyrddin i gyflawni ei ymrwymiadau i'r Gymraeg, siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg.

| **Meini Prawf Effaith** | **Disgrifiad** | **Statws yr effaith** | **A oes unrhyw fesurau wedi'u nodi i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd cadarnhaol?** | **Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru)** |
|---|---|---|---|---|
| Categori Iaith yr ysgol (ffurfiol) | Categori iaith yr ysgol yw **1 -** Cyfrwng Saesneg. Disgrifir y categori hwn fel a ganlyn - *Saesneg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol yn ogystal â chyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr. Cydnabyddir y bydd creu ethos Cymraeg o fewn yr ysgol yn cefnogi ac yn annog agweddau cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg. Bydd dysgwr mewn ysgol o'r categori hwn yn gallu darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando yn Saesneg yn unol ag oedran a gallu, a bydd ganddo rywfaint o ddealltwriaeth o'r Gymraeg. Caiff y Gymraeg ei haddysgu a'i hasesu fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a* | Cadarnhaol | Bydd y cynnig hwn yn gwella gallu plant i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg o oedran cynnar gan y bydd y ddarpariaeth feithrin yn ddwyieithog. | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *chyfathrebu. Bydd o leiaf 15% o weithgareddau ysgol y dysgwyr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.* | | | |
| Categori Iaith yr ysgol (anffurfiol) | Mae 0% o ddisgyblion oedran statudol yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn yn siarad Cymraeg gartref. Yn draddodiadol, ychydig iawn o Gymraeg sy'n cael ei siarad yng nghymuned Talacharn.<br><br>Gallai'r cynnig hwn gryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn ffurfiol ac yn anffurfiol gyda'u cyfoedion o oedran iau.<br><br>Yn sgil newid i ddarpariaeth 3-11, nod yr ysgol yw gweithio gyda'n holl bartneriaid i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd i sicrhau bod pob rhiant/gofalwr a theulu yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus cyn gynted â phosibl ym mywyd eu plentyn. | Cadarnhaol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| Gwybodaeth am safonau'r Gymraeg yn yr ysgol | **Mewnbwn yr Awdurdod Lleol:**<br><br>**Cyd-destun**<br><br>Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn yn ddarparwr cyfrwng Saesneg gydag ymrwymiad cryf i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae cyfeiriad strategol yr ysgol yn cefnogi dyheadau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin | Cadarnhaol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ac yn cyd-fynd â gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.<br><br>Rhan allweddol o'r weledigaeth hon yw'r bwriad i'r ysgol symud i leoliad Trosiannol Categori 2 (T2). Mae arweinwyr yn cymryd camau rhagweithiol i wella darpariaeth Gymraeg yr ysgol, gan gynnwys y bwriad i sefydlu lleoliad meithrin dwyieithog. Byddai hyn yn rhoi sylfaen dwy iaith gyfoethog i ddisgyblion a'u teuluoedd o dair oed, gan eu helpu i symud ymlaen yn hyderus ar hyd y continwwm iaith o'r cyfnod cynharaf.<br><br>Ar hyn o bryd, mae dwy ran o dair o'r staff addysgu yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn yn siaradwyr Cymraeg, sy'n galluogi'r ysgol i fodelu'r iaith yn gyson ac yn ddilys mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol.<br><br>**Cynnydd ers yr arolygiad**<br>Ers yr arolygiad diweddaraf, mae'r ysgol wedi cymryd camau pwrpasol i gryfhau'r ethos Cymreig a chreu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion gael cysylltiad â'r iaith. Mae mentrau fel y Criw Cymraeg, gwasanaethau Cymraeg dan arweiniad disgyblion, a dathlu digwyddiadau diwylliannol, gan gynnwys Diwrnod Shwmae a Dydd Miwsig Cymru, wedi | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cyfoethogi profiadau disgyblion ac wedi hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg.<br><br>Mae'r Gymraeg yn cael ei sefydlu'n gynyddol ym mywyd ysgol o ddydd i ddydd. Mae staff yn ymgorffori Cymraeg achlysurol yn rheolaidd mewn arferion ystafell ddosbarth a chwarae, ac mae'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd dilys i ddisgyblion ddefnyddio'r iaith a'i mwynhau. Mae ymrwymiad arweinwyr a staff i hyrwyddo dwyieithrwydd yn amlwg, ac mae'r ysgol yn creu diwylliant o hunaniaeth a balchder Cymreig.<br><br>**Effaith y Newid Arfaethedig**<br>Byddai ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4–11 i 3–11 oed yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Byddai sefydlu darpariaeth Feithrin ddwyieithog yn galluogi trochi yn y Gymraeg yn gynharach drwy brofiadau chwarae o ansawdd uchel. Mae hwn yn ddull sefydledig sy'n cefnogi datblygiad gwybyddol ac iaith plant, wrth osod sylfeini cadarn ar gyfer dysgu dwyieithog.<br><br>Mae proffil staffio presennol yr ysgol lle mae dwy ran o dair o'r staff addysgu yn siaradwyr Cymraeg yn cryfhau ei gallu i gyflawni'r weledigaeth hon ymhellach. | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Byddai'r newid yn hyrwyddo parhad mewn datblygiad iaith ar draws Dysgu Sylfaen a thu hwnt.<br><br>**<u>Mewnbwn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn:</u>**<br>Fel ysgol cyfrwng Saesneg sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg, rydym yn bwriadu sicrhau bod y ddarpariaeth feithrin yn gweithredu'n ddwyieithog. Bydd hyn yn cefnogi disgyblion a'u teuluoedd i symud ymlaen ar hyd y continwwm iaith yn unol â'n Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a symud yr ysgol ymlaen i T2 (Categori Iaith Llywodraeth Cymru). Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r nodau strategol ehangach o hyrwyddo dwyieithrwydd a chefnogi gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.<br><br>Byddai newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 yn rhoi cyfleoedd ar gyfer trochi yn y Gymraeg yn gynharach o 3 oed. Gallai hyn gryfhau sgiliau iaith disgyblion wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol. | | | |
| Gwybodaeth am weithgareddau ar ôl ysgol sy’n rhoi cyfleoedd | Mae disgyblion Ysgol Talacharn yn cael cyfle i ymuno â'r Urdd, ac mae nifer yn cymryd rhan mewn gweithgareddau lleol a rhanbarthol, gan gynnwys | | Mae cefnogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth, yn | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol e.e clybiau'r Urdd | cystadlaethau'r Eisteddfod, celf a chrefft, a digwyddiadau chwaraeon.<br><br>Mae'r ysgol yn cynnal Eisteddfod ysgol draddodiadol bob blwyddyn sy'n cael ei chefnogi'n dda iawn gan deuluoedd. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o gategorïau gan gynnwys crefft, coginio, dawns, cerddoriaeth, llefaru, a chôr ar draws pob grŵp oedran. Anogir rhieni i gymryd rhan drwy gyflwyno ceisiadau yn y gystadleuaeth celf a chrefft i rieni, gan helpu i greu profiad diwylliannol sy'n cael ei rannu. Mae aelodau'r Corff Llywodraethu hefyd yn cefnogi'r digwyddiad drwy wirfoddoli fel beirniaid.<br><br>Mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn mynychu gwersylloedd preswyl blynyddol yr Urdd yn Llangrannog neu Fae Caerdydd, lle maent yn elwa ar brofiadau trochi yn y Gymraeg a diwylliant Cymru sy'n cryfhau sgiliau llafaredd a dealltwriaeth ddiwylliannol.<br><br>Mae'r ysgol wedi cynnal sesiynau clwb Cymraeg ar ôl ysgol, gyda chefnogaeth staff, ac mae'n awyddus i ailsefydlu clwb Cymraeg rheolaidd o hydref 2025, mewn cydweithrediad â Menter Iaith neu bartneriaid tebyg. | Cadarnhaol | flaenoriaeth allweddol yn y cwricwlwm.<br>Cydweithio pellach â phartneriaid fel Menter Iaith. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Mae Menter Iaith yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gefnogi disgyblion a staff drwy gyflwyno Gemau Buarth, gan annog disgyblion i chwarae a rhyngweithio yn Gymraeg yn ystod amser egwyl. Mae hyn yn cefnogi defnydd anffurfiol o'r iaith ac yn cyfrannu at ymgorffori'r Gymraeg ym mywyd ysgol bob dydd.<br><br>Mae'r ysgol yn dathlu diwrnodau diwylliannol arbennig yng Nghymru fel rhan o'i chalendr blynyddol, gan gynnwys Dydd Santes Dwynwen, Diwrnod Shwmae Su'mae, a Dydd Miwsig Cymru. Mae'r digwyddiadau hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth ddiwylliannol, annog defnyddio'r iaith, a meithrin ymdeimlad o falchder mewn hunaniaeth Gymreig ymhlith ein disgyblion.<br><br>Mae Pwyllgor Llais Disgyblion y Criw Cymraeg yn chwarae rôl arwain weithredol wrth hyrwyddo'r Gymraeg ar draws yr ysgol. Maent yn arwain gwasanaethau wythnosol, gan rannu Ymadrodd Cymraeg yr Wythnos ac annog plant i'w ddefnyddio ledled yr ysgol. Mae disgyblion sydd wedi gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r ymadrodd yn cael eu dathlu drwy wobrau'r Criw Cymraeg, gan feithrin dull cadarnhaol, dan arweiniad cyfoedion, o ddefnyddio iaith. | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Gwybodaeth ynghylch a yw'r ysgol yn darparu cyfleusterau i aelodau'r gymuned ddysgu Cymraeg, neu gyfleusterau iddynt ymgymryd â gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg | Er nad yw'r ysgol ar hyn o bryd yn cynnig cyfleoedd dysgu Cymraeg strwythuredig i'r gymuned ehangach, mae'n awyddus i ddatblygu hyn. | Negyddol | Mae'r ysgol yn gobeithio gweithio gyda'r **Mentrau Iaith** i ddarparu **sesiynau dwyieithog i rieni a phlant bach** a **gweithgareddau dysgu Cymraeg i'r teulu**, yn enwedig fel rhan o'r ddarpariaeth feithrin arfaethedig.<br><br>Fel ysgol sy'n symud ymlaen tuag at Gategori Cymraeg **T2**, mae wedi ymrwymo i gynyddu presenoldeb a defnydd y Gymraeg drwy gydol bywyd ysgol a chryfhau cysylltiad teuluoedd a'r gymuned â'r iaith. | Cadarnhaol |
| Yr effeithiau y gallai penderfyniad polisi eu cael ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Byddai'r cynnig hwn yn cynyddu darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg ac felly'n cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.<br><br>Nid yw'r cynnig hwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Mae Sir Gaerfyrddin hefyd yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Drwy Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg y cyngor a thrwy weithio gyda'n partneriaid, byddwn yn parhau i wneud y mwyaf o'r | Cadarnhaol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cyfleoedd i holl ddisgyblion Sir Gaerfyrddin a'n cymunedau ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd.<br><br>Bydd dogfennau'r ymgynghoriad yn ddwyieithog sy'n golygu y bydd y cyhoedd yn cael cyfle i ddarllen dogfennau yn ymwneud â'r cynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg a darparu ymateb yn eu dewis iaith. | | | |
| Gwybodaeth ynghylch sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod ac unrhyw gamau y bydd angen eu cymryd yn y dyfodol o ganlyniad i'r newid i barhau i gydymffurfio â'r cynllun neu gyrraedd | **Y weledigaeth: Y flwyddyn 2050**: *Mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn a chaiff ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni. Mae yna werthfawrogiad hefyd o'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru. Ein gweledigaeth ym mhob rhan o'r wlad yw creu amodau ffafriol sy'n cefnogi'r broses o gaffael yr iaith a'r arfer o ddefnyddio sgiliau Cymraeg. Rydym am weld cynnydd yn yr arfer o drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu, yr arfer o gyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i bob plentyn a system addysg sy'n rhoi sgiliau Cymraeg i bawb.* | Cadarnhaol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| targedau'r cynllun. | Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'n nodi gweledigaeth, nod ac amcanion yr awdurdod ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae'r cynnig yn cyd-fynd yn llawn â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod.<br><br>Nod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin yw hyrwyddo cynnydd yn nifer y bobl o bob oed sy'n medru defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.<br><br>Mae'r cynnig hwn yn cefnogi Deilliant 1 'Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg'. Byddai newid ystod oedran Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn o 4-11 i 3-11 yn darparu addysg ran-amser cyfrwng Cymraeg i blant 3 oed yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Talacharn, gan gryfhau'r broses bontio rhwng darpariaeth feithrin ac addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.<br><br>Byddai'r cynnig hwn yn darparu cyfleoedd cynharach ar gyfer trochi yn y Gymraeg o | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 3 oed, gan ddatblygu sgiliau iaith sylfaenol yn ystod blynyddoedd ffurfiannol disgyblion a sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i wneud hynny drwy gydol eu taith addysgol. | | | |

**Casgliad a Chrynodeb**
Mae asesiad cychwynnol yn dangos ei bod yn debygol y bydd effaith gadarnhaol ar y Gymraeg os bydd y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Wirfoddol a Reolir Talacharn o 4-11 i 3-11 o fis Medi 2026 yn mynd rhagddo.

Efallai y bydd yr Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen yn dibynnu ar ganlyniadau'r broses ymgynghori.